**‘Words that Burn’**

**Cyfleoedd am interniaethau â thâl ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig o Brifysgol Abertawe mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol.**

Mae prosiect ‘Words that Burn’ yn fenter gyffrous sy'n canolbwyntio ar addysg Hawliau Dynol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3. Mae'r fenter, a arweinir gan Dr Elaine Canning o Sefydliad Diwylliannol Prifysgol Abertawe, yn rhan o raglen fawr o weithgareddau allgymorth **DylanED*** sydd wedi cael ei hariannu drwy gyllid hael gan Ymddiriedolaeth Rhys Davies mewn cydweithrediad ag Amnesty International UK (AIUK). Nod y prosiect yw grymuso pobl ifanc i ddysgu am hawliau dynol a theimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi fel beirdd a gwneuthurwyr newid.

Mae ***DylanED**, sef llinyn addysgol Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe, yn rhaglen gynyddol o fuddsoddiad cymunedol sy'n ceisio ysbrydoli pobl ifanc i ymgysylltu â llenyddiaeth a datblygu eu lleisiau creadigol eu hunain.

**<u>Manylion am y lleoliad, y dyletswyddau a’r cyfrifoldebau</u>**

Rydym yn cynnig chwe chyfle am leoliad gwaith â thâl i fyfyrwyr ôl-raddedig gyflwyno cyfres o weithdai mewn ysgolion yn ne Cymru ar lefel Cyfnod Allweddol 3.

- Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth o hawliau dynol ar gyfer cyflwyno gweithdai barddoniaeth mewn ystafelloedd dosbarth drwy fynd i sesiynau hyfforddiant a gyflwynir gan Sefydliad Diwylliannol Prifysgol Abertawe AIUK.
- Bydd pob myfyriwr yn cyflwyno 4 gweithdy 1 awr o hyd yn ei ysgol ddynodedig rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025.
- Bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiad arddangos a fydd yn cynnwys gwaith disgyblion o'u hysgolion dynodedig ddydd Mawrth 13 Mai 2025.

**Manyleb Person**

1. Myfyriwr ôl-raddedig mewn Llenyddiaeth Saesneg/Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Abertawe
2. Sgiliau trefnu ardderchog ynghyd â sylw i fanylder a chywirdeb
3. Gallu gweithio'n annibynnol i fodloni dyddiad cau penodol
4. Sgiliau cyfathrebu ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar
5. Sgiliau rhyngbersonol ardderchog

**Dymunol**

Rhywfaint o brofiad o addysgu/gyflwyno gweithdai a seminarau (dylech chi hefyd gynnwys manylion o'ch profiad addysgu yn eich llythyr eglurhaol gan gynnwys gwybodaeth am grwpiau oedran a math y sesiwn/dosbarth)

**Ffi:** £12.69 yr awr gan gynnwys pedair awr o hyfforddiant, deuddeg awr o waith paratoi a phedair awr o waith cyflwyno. Cyfanswm: £253.80.

Bydd costau teithio i'r ysgol yn cael eu cynnwys ynghyd â'r ffi.

**Gwybodaeth Ychwanegol:**

Gall fod angen **gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** ar gyfer rhai o'r interniaethau.

Rhaid i chi fod ar gael ar gyfer hyfforddiant gydag AIUK a'r Sefydliad Diwylliannol ar y dyddiadau canlynol:
Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2024, 2pm-4pm
Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2024, 2pm-4pm

Rhaid i chi hefyd fod ar gael i fynd i ddigwyddiad arddangos y prosiect a gynhelir ddydd Mawrth 13 Mai 2025 (prynhawn).

**Dyddiad cau i gyflwyno cais:** 5pm ar dydd Llun 18 Tachwedd
Cyflwynwch eich CV a llythyr eglurhaol gan nodi'r canlynol:
a) pam mae'r interniaeth o ddiddordeb i chi;
b) manylion am eich profiad blaenorol perthnasol;
c) a ydych chi'n siaradwr Cymraeg a lefel eich rhuglder;
ch) cadarnhad eich bod chi ar gael ar y dyddiadau ym mis Rhagfyr a mis Mai a nodir uchod drwy e-bostio cultural-institute@abertawe.ac.uk gan nodi'r geiriau 'Interniaeth Words that Burn' ym mhennawd yr e-bost.